# CERI MORGAN

Dechreuodd Ceri chwarae i Glwb Rygbi'r Porth yn ystod yr 1980au, gan dreulio blynyddoedd lawer ar y cae. Ar ôl ymddeol o chwarae, parhaodd i gefnogi'r clwb pryd bynnag y gallai. Tua 15 mlynedd yn ôl, daeth yn swyddog cyllid y pwyllgor, gan sicrhau arian ar gyfer prosiectau sydd wedi dod â gwelliannau sylweddol i'r clwb. Mae'n cadw'n brysur yn parhau i chwilio am gyllid hyd heddiw. Mae Ceri hefyd yn ymwneud â'r timoedd i blant, sy'n cyfrif ei wyrion yn chwaraewyr, ac mae'n helpu'r timoedd trwy fod yn swyddog cymorth cyntaf cymwys. Mae'r clwb yn gweithio gyda gwahanol sefydliadau i roi rhywbeth yn ôl i'r gymuned, ac mae Ceri yn chwarae rhan weithredol yn hyn.

Sefydlodd Ceri hefyd grŵp cerdded Porth Harlequins, 'One Step Beyond'. Mae'r grŵp yn cyfarfod bob bore Sul yn y clwb i gerdded llwybrau rhwng 3 ac 8 milltir o hyd. Mae Ceri wedi ennill cymwysterau arweinyddiaeth i helpu i gadw pawb yn ddiogel, ac mae'n hyrwyddo'r grŵp yn lleol i annog mwy o bobl i gymryd rhan.




Chwaraeon RhCT
Sport RCT

## GWIRFODDOLWR Y MIS

## AWST 2026